



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2021 Rhif 668 (Cy. 169)

2021 No. 668 (W. 169)

**IECHYD Y CYHOEDD,
CYMRU**

PUBLIC HEALTH, WALES

Rheoliadau Diogelu Iechyd
(Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif
5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 11)
2021

The Health Protection (Coronavirus
Restrictions) (No. 5) (Wales)
(Amendment) (No. 11) Regulations
2021

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae Rhan 2A o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i wneud darpariaeth at ddiben atal, diogelu rhag, rheoli neu ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i fynychder neu ledaeniad haint neu halogiad yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol aciwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/1609 (Cy. 335)) ("y prif Reoliadau").

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

Part 2A of the Public Health (Control of Disease) Act 1984 enables the Welsh Ministers, by regulations, to make provision for the purpose of preventing, protecting against, controlling or providing a public health response to the incidence or spread of infection or contamination in Wales.

These Regulations are made in response to the serious and imminent threat to public health which is posed by the incidence and spread of severe acute respiratory syndrome coronavirus 2 (SARS-CoV-2) in Wales.

These Regulations amend the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (No. 5) (Wales) Regulations 2020 (S.I. 2020/1609 (W. 335)) ("the principal Regulations").

Mae'r Rheoliadau yn darparu bod Cymru gyfan yn symud o Lefel Rhybudd 2 i Lefel Rhybudd 1 o 6.00 a.m. ar 7 Mehefin 2021. Mae hyn yn golygu bod y cyfyngiadau a'r gofynion yn Atodlen 1 i'r prif Reoliadau yn cymryd effaith.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn diwygio Atodlen 1 i'r prif Reoliadau er mwyn—

- cyfyngu ar gynulladau o dan do mewn anheddau preifat i aelodau o un aelwyd neu aelwyd estynedig yn unig. Caiff aelwydydd estynedig gynnwys hyd at dair aelwyd ac un aelwyd anghenion llesiant;
- darparu y caiff hyd at 30 o bobl ymgynnull mewn unrhyw fangre yn yr awyr agored, gan gynnwys yn yr awyr agored mewn gerddi preifat a mangreodd rheoleiddiedig;
- darparu na chaiff mwy na 30 o bobl fynd i ddathliad o dan do o briodas, ffurfiad partneriaeth sifil neu seremoni briodas arall, neu ddathliad o dan do o fywyd person ymadawedig;
- darparu na chaiff mwy na 30 o bobl fynd i gynulliad rheoleiddiedig o dan do;
- darparu y caiff person mewn digwyddiad rheoleiddiedig a gynhelir yn yr awyr agored gymryd rhan mewn cynulliad sy'n cynnwys mwy na 30 o bobl;
- darparu na chaiff unrhyw berson, heb esgus rhesymol, drefnu digwyddiad oni bai ei fod yn ddigwyddiad rheoleiddiedig, yn cael ei gynnal yn yr awyr agored, a lle nad yw mwy na 10,000 (pan fo pob person sy'n bresennol yn eistedd fel arfer) neu 4,000 (ar gyfer digwyddiadau eraill) o bobl yn bresennol ar unrhyw adeg. Mae eithriadau cyfyngedig sy'n parhau i ganiatáu, er enghraifft, priodasau, angladdau, dathliadau o briodasau etc., cynulladau rheoleiddiedig bach, a digwyddiadau mewn anheddau preifat (ym mhob achos, pa un a ydynt yn digwydd o dan do ai peidio). Mae newidiadau cyfatebol wedi eu gwneud hefyd i'r paragraffau perthnasol yn Atodlenni 2 i 4, ond gyda niferoedd llai o bobl a gaiff fod yn bresennol;
- ei gwneud yn ofynnol i rinciau sglefrio iâ barhau i fod ar gau.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn gwneud yn glir effaith diwygiad sydd wedi ei wneud gan O.S. 2021/583 (Cy. 160) i'r rheolau ar weini bwyd a diod mewn sinemâu, meysydd chwaraeon a theatrau trwyddedig ac yn gwneud mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol eraill.

The Regulations provide that the whole of Wales moves from Alert Level 2 to Alert Level 1 from 6.00 a.m. on 7 June 2021. This means that the restrictions and requirements in Schedule 1 to the principal Regulations take effect.

The Regulations also amend Schedule 1 to the principal Regulations to—

- limit gatherings indoors in private dwellings to only members of one household or extended household. Extended households can comprise of up to three households and one well-being needs household;
- provide that up to 30 people can gather at any outdoor premises, including outdoors in private gardens and regulated premises;
- provide that no more than 30 people can attend an indoor celebration of a marriage, formation of a civil partnership or alternative wedding ceremony, or an indoor celebration of the life of a deceased person;
- provide that no more than 30 people can attend an indoor regulated gathering;
- provide that a person at a regulated event held outdoors can participate in a gathering consisting of more than 30 people;
- provide that no person may, without a reasonable excuse, organise an event unless it is regulated, held outdoors, and at which no more than 10,000 (where every person attending is normally seated) or 4,000 (for other events) people attend at any time. There are limited exceptions which continue to allow, for example, weddings, funerals, celebrations of marriages etc., small regulated gatherings, and events in private dwellings (in each case, whether or not they take place indoors). Equivalent changes are also made to the relevant paragraphs of Schedules 2 to 4, but with lower numbers of permitted attendees;
- require ice skating rinks to remain closed.

The Regulations also clarify the effect of an amendment made by S.I. 2021/583 (W. 160) to the rules on service of food and drink in licensed cinemas, sports grounds and theatres and make other minor and consequential amendments.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has not been prepared as to the likely cost and benefit of complying with these Regulations.

2021 Rhif 668 (Cy. 169)

2021 No. 668 (W. 169)

**IECHYD Y CYHOEDD,
CYMRU**

PUBLIC HEALTH, WALES

**Rheoliadau Diogelu Iechyd
(Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif
5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 11)
2021**

**The Health Protection (Coronavirus
Restrictions) (No. 5) (Wales)
(Amendment) (No. 11) Regulations
2021**

Cymeradwywyd gan Senedd Cymru

Approved by Senedd Cymru

Gwnaed am 3.46 p.m. ar 4 Mehefin 2021

Made at 3.46 p.m. on 4 June 2021

*Gosodwyd gerbron Senedd
Cymru am 6.30 p.m. ar 4 Mehefin 2021*

*Laid before Senedd
Cymru at 6.30 p.m. on 4 June 2021*

Yn dod i rym am 6.00 a.m. ar 7 Mehefin 2021

Coming into force at 6.00 a.m. on 7 June 2021

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(1).

The Welsh Ministers make the following Regulations in exercise of the powers conferred by sections 45C(1) and (3)(c), 45F(2) and 45P(2) of the Public Health (Control of Disease) Act 1984(1).

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol aciwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

These Regulations are made in response to the serious and imminent threat to public health which is posed by the incidence and spread of severe acute respiratory syndrome coronavirus 2 (SARS-CoV-2) in Wales.

(1) 1984 p. 22. Mewnosodwyd adrannau 45C, 45F a 45P gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14). Mae'r swyddogaethau o dan yr adrannau hyn wedi eu rhoi i "the appropriate Minister" ("y Gweinidog priodol"). O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984, y Gweinidog priodol, o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru.

(1) 1984 c. 22. Sections 45C, 45F and 45P were inserted by section 129 of the Health and Social Care Act 2008 (c. 14). The functions under these sections are conferred on "the appropriate Minister". Under section 45T(6) of the 1984 Act the appropriate Minister, as respects Wales, is the Welsh Ministers.

Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried bod y cyfyngiadau a'r gofynion a osodir gan y Rheoliadau hyn yn gymesur â'r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni, sef ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad hwnnw.

Yn unol ag adran 45R o'r Ddeddf honno, oherwydd brys, mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn angenrheidiol gwneud yr offeryn hwn heb fod drafft wedi ei osod gerbron Senedd Cymru ac wedi ei gymeradwyo ganddi drwy benderfyniad.

Enwi a dod i rym

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 11) 2021.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym am 6.00 a.m. ar 7 Mehefin 2021.

Diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020

2.—(1) Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020(1) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 17—

(a) ym mharagraff (1)(a), ar ôl “fangre” mewnosoder “, ac eithrio mewn sinemâu, meysydd chwaraeon a theatrau”;

(b) yn lle paragraff (4A) rhodder—

“(4A) Nid yw is-baragraffau (b)(i) a (ii) o baragraff (1) yn gymwys mewn perthynas ag—

(a) cwsmeriaid mewn—

(i) sinemâu,

(ii) meysydd chwaraeon, neu

(iii) theatrau,

pan fo'r cwsmeriaid hynny yn eistedd fel arfer yn y fangre (ac eithrio pan fyddant yn archebu bwyd neu ddiod neu pan weinir bwyd neu ddiod iddynt) ar gyfer arddangosiad ffilm, digwyddiad chwaraeon byw neu berfformiad theatraidd byw, neu

(b) personau sy'n mynd i gynulliad neu ddigwyddiad rheoleiddiedig sy'n cael ei gynnal yn yr awyr agored.

The Welsh Ministers consider that restrictions and requirements imposed by these Regulations are proportionate to what they seek to achieve, which is a public health response to that threat.

In accordance with section 45R of that Act the Welsh Ministers are of the opinion that, by reason of urgency, it is necessary to make this instrument without a draft having been laid before, and approved by a resolution of, Senedd Cymru.

Title and coming into force

1.—(1) The title of these Regulations is the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (No. 5) (Wales) (Amendment) (No. 11) Regulations 2021.

(2) These Regulations come into force at 6.00 a.m. on 7 June 2021.

Amendment to the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (No. 5) (Wales) Regulations 2020

2.—(1) The Health Protection (Coronavirus Restrictions) (No. 5) (Wales) Regulations 2020(1) are amended as follows.

(2) In regulation 17—

(a) in paragraph (1)(a), after “premises” insert “, apart from in cinemas, sports grounds and theatres”;

(b) for paragraph (4A) substitute—

“(4A) Sub-paragraphs (b)(i) and (ii) of paragraph (1) do not apply in relation to—

(a) customers at—

(i) cinemas,

(ii) sports grounds, or

(iii) theatres,

where those customers are normally seated at the premises (other than when ordering food or drink or being served with food or drink) for the showing of a film, a live sporting event or a live theatrical performance, or

(b) persons attending a regulated gathering or event that is held outdoors.

(1) O.S. 2020/1609 (Cy. 335) a ddiwygiwyd gan O.S. 2020/1610 (Cy. 336), O.S. 2020/1623 (Cy. 340), O.S. 2020/1645 (Cy. 345), O.S. 2021/20 (Cy. 7), O.S. 2021/46 (Cy. 10), O.S. 2021/57 (Cy. 13), O.S. 2021/66 (Cy. 15), O.S. 2021/95 (Cy. 26), O.S. 2021/103 (Cy. 28), O.S. 2021/172 (Cy. 40), O.S. 2021/210 (Cy. 52), O.S. 2021/307 (Cy. 79), O.S. 2021/413 (Cy. 133), O.S. 2021/502 (Cy. 150), O.S. 2021/542 (Cy. 154) ac O.S. 2021/583 (Cy. 160).

(1) S.I. 2020/1609 (W. 335) as amended by S.I. 2020/1610 (W. 336), S.I. 2020/1623 (W. 340), S.I. 2020/1645 (W. 345), S.I. 2021/20 (W. 7), S.I. 2021/46 (W. 10), S.I. 2021/57 (W. 13), S.I. 2021/66 (W. 15), S.I. 2021/95 (W. 26), S.I. 2021/103 (W. 28), S.I. 2021/172 (W. 40), S.I. 2021/210 (W. 52), S.I. 2021/307 (W. 79), S.I. 2021/413 (W. 133), S.I. 2021/502 (W. 150), S.I. 2021/542 (W. 154) and S.I. 2021/583 (W. 160).

(4B) At ddiben paragraff (4A), mae digwyddiad chwaraeon neu berfformiad theatraidd “byw” yn un y mae'r cwsmer yn dyst iddo ac eithrio drwy ddarllediad.”

(3) Yn rheoliad 28(3)(a), ar ôl “2(1)” mewnosoder “neu (1A)”.

(4) Yn rheoliad 37(1)(a), ar ôl “2(1)” mewnosoder “neu (1A)”.

(5) Yn rheoliad 57—

(a) ym mharagraff (7)—

(i) yn y geiriau o flaen is-baragraff (a), yn lle “yn gynulliad” rhodder “neu ddigwyddiad yn gynulliad neu ddigwyddiad”;

(ii) yn is-baragraff (b)(ii), yn lle “rheoliadau 16 ac 18(1)” rhodder “Rhan 4”;

(b) ym mharagraff (8)—

(i) ym mhob lle y mae'n digwydd, ar ôl “cynulliad” mewnosoder “neu'r digwyddiad”;

(ii) yn is-baragraff (b)—

(aa) yn y geiriau o flaen paragraff (i), yn lle “rheoliad 16” rhodder “Rhan 4”;

(bb) ym mharagraff (i), yn lle “at ddibenion y rheoliad hwnnw” rhodder “o fewn yr ystyr a roddir gan rheoliad 15”;

(c) ar ôl paragraff (8) mewnosoder—

“(9) At ddibenion y Rheoliadau hyn, nid yw cynulliad neu ddigwyddiad rheoleiddiedig i'w drin fel pe na bai'n cael ei gynnal “yn yr awyr agored” am y rhesymau a ganlyn yn unig—

(a) y darperir cyfleusterau o dan do ar gyfer gwerthu bwyd a diod i'w fwyta neu i'w hyfed yn yr awyr agored;

(b) y darperir cyfleusterau o dan do eraill sy'n angenrheidiol er mwyn cynnal y cynulliad neu'r digwyddiad.”

(6) Yn Atodlen 1—

(a) ym mharagraff 1—

(i) yn is-baragraff (1), hepgorer “sy'n cynnwys mwy na 6 o bobl”;

(ii) ar ôl is-baragraff (1) mewnosoder—

“(1A) Ond caiff person gymryd rhan mewn cynulliad o'r fath yn yr awyr agored os nad yw'r cynulliad yn cynnwys mwy na 30 o bobl.”;

(iii) yn is-baragraff (2)—

(aa) yn y geiriau o flaen paragraff (a), yn lle “(1)” rhodder “(1A)”;

(4B) For the purpose of paragraph (4A), a “live” sporting event or theatrical performance is one the customer is witnessing other than by means of a broadcast.”

(3) In regulation 28(3)(a), after “2(1)” insert “or (1A)”.

(4) In regulation 37(1)(a), after “2(1)” insert “or (1A)”.

(5) In regulation 57—

(a) in paragraph (7)—

(i) in the words before sub-paragraph (a), after “gathering” insert “or event”;

(ii) in sub-paragraph (b)(ii), for “regulations 16 and 18(1)” substitute “Part 4”;

(b) in paragraph (8)—

(i) in each place it occurs, after “gathering” insert “or event”;

(ii) in sub-paragraph (b)—

(aa) in the words before paragraph (i), for “regulation 16” substitute “Part 4”;

(bb) in paragraph (i), for “for the purposes of that regulation” substitute “within the meaning given by regulation 15”;

(c) after paragraph (8) insert—

“(9) For the purposes of these Regulations, a regulated gathering or event is not to be treated as being otherwise than “outdoors” by reason only of—

(a) the provision of indoor facilities for the sale of food and drink to be consumed outdoors;

(b) the provision of other indoor facilities necessary for the holding of the gathering or event.”

(6) In Schedule 1—

(a) in paragraph 1—

(i) in sub-paragraph (1), omit “which consists of more than 6 people”;

(ii) after sub-paragraph (1) insert—

“(1A) But a person may participate in such a gathering outdoors if the gathering consists of no more than 30 persons.”;

(iii) in sub-paragraph (2)—

(aa) in the words before paragraph (a), for “(1)” substitute “(1A)”;

- (bb) ym mharagraff (a), yn lle “6 aelwyd” rhodder “30 o aelwydydd”;
- (iv) yn is-baragraff (5), ar ôl paragraff (c) mewnosoder—
- “(d) cymryd rhan mewn cynulliad o ddim mwy na 4 o bobl pan fo’r holl bersonau yn y cynulliad—
- (i) yn byw yn yr un fangre, a
- (ii) yn rhannu cyfleusterau toiled, ymolchi, bwyta neu goginio gyda’i gilydd.”;
- (b) ym mharagraff 2—
- (i) yn is-baragraff (1)—
- (aa) yn y geiriau o flaen paragraff (a), ar ôl “annedd breifat” mewnosoder “neu mewn llety gwyliau neu lety teithio”;
- (bb) ym mharagraff (a), hepgorer “neu yn yr awyr agored mewn mangre reoleiddiedig.”;
- (cc) ar ôl paragraff (a) mewnosoder—
- “(aa) yn yr awyr agored mewn mangre reoleiddiedig, sy’n cynnwys mwy na 30 o bobl oni bai bod yr holl bersonau sy’n cymryd rhan yn y cynulliad yn aelodau o’r un aelwyd.”;
- (ii) ar ôl is-baragraff (1) mewnosoder—
- “(1A) Ni chaiff unrhyw berson, heb esgus rhesymol, gymryd rhan mewn cynulliad sy’n digwydd mewn llety gwyliau neu lety teithio oni bai bod yr holl bersonau sy’n cymryd rhan yn y cynulliad yn aelodau o’r un aelwyd neu aelwyd estynedig.
- (1B) Ond caiff person gymryd rhan mewn cynulliad o’r fath yn yr awyr agored os nad yw’r cynulliad yn cynnwys mwy na 30 o bersonau.”;
- (iii) yn is-baragraff (2)—
- (aa) yn y geiriau o flaen paragraff (a), yn lle “is-baragraff (1)” rhodder “is-baragraffau (1) ac (1B)”;
- (bb) ym mharagraff (a)(i), hepgorer “, neu yn yr awyr agored mewn mangre reoleiddiedig”;
- (cc) ym mharagraff (a)(ii), hepgorer “mewn mangre nad yw’n fangre reoleiddiedig”;
- (iv) yn is-baragraff (5)—
- (aa) ym mharagraff (e)—
- (i) yn lle “50” rhodder “30”;
- (bb) in paragraph (a), for “6” substitute “30”;
- (iv) in sub-paragraph (5), after paragraph (c) insert—
- “(d) participating in a gathering of no more than 4 people where all the persons in the gathering—
- (i) live in the same premises, and
- (ii) share toilet, washing, dining or cooking facilities with each other.”
- ;
- (b) in paragraph 2—
- (i) in sub-paragraph (1)—
- (aa) in the words before paragraph (a), after “private dwelling” insert “or in holiday or travel accommodation”;
- (bb) in paragraph (a), omit “or outdoors in regulated premises.”;
- (cc) after paragraph (a) insert—
- “(aa) outdoors in regulated premises, which consists of more than 30 people unless all the persons participating in the gathering are members of the same household.”;
- (ii) after sub-paragraph (1) insert—
- “(1A) No person may, without a reasonable excuse, participate in a gathering which takes place in holiday or travel accommodation unless all the persons participating in the gathering are members of the same household or extended household.
- (1B) But a person may participate in such a gathering outdoors if the gathering consists of no more than 30 persons.”;
- (iii) in sub-paragraph (2)—
- (aa) in the words before paragraph (a), for “sub-paragraph (1)” substitute “sub-paragraphs (1) and (1B)”;
- (bb) in paragraph (a)(i), omit “, or outdoors in regulated premises”;
- (cc) in paragraph (a)(ii), omit “in premises that are not regulated premises”;
- (iv) in sub-paragraph (5)—
- (aa) in paragraph (e)—
- (i) for “50” substitute “30”;

- (ii) hepgorer “neu gynulliad yn yr awyr agored o ddim mwy na 100 o bobl mewn mangre o’r fath,”;
- (iii) hepgorer “(yn y naill achos na’r llall)”;
- (bb) ym mharagraff (i)—
 - (i) yn y geiriau o flaen is-baragraff (i), yn lle “yn gyfan gwbl neu’n bennaf” rhodder “i unrhyw raddau”;
 - (ii) yn is-baragraff (i), yn lle “50” rhodder “30”;
- (cc) yn lle paragraff (j) rhodder—
 - “(j) cymryd rhan mewn cynulliad neu ddigwyddiad rheoleiddiedig sy’n digwydd yn yr awyr agored, yn mynd i gynulliad neu ddigwyddiad o’r fath neu’n hwyluso cynulliad neu ddigwyddiad o’r fath;”;
 - (dd) ym mharagraff (k), ar ôl “cynulliad rheoleiddiedig” mewnosoder “, mewn mangre ac eithrio llety gwyliau neu lety teithio,”;
- (c) ym mharagraff 4—
 - (i) yn lle is-baragraff (1) rhodder—
 - “(1) Ni chaiff unrhyw berson, heb esgus rhesymol, ymwneud â threfnu digwyddiad oni bai—
 - (a) bod y digwyddiad yn ddigwyddiad rheoleiddiedig (gweler rheoliad 57(7)),
 - (b) bod y digwyddiad yn cael ei gynnal yn yr awyr agored, ac
 - (c) nad yw mwy na nifer y bobl a ganiateir yn bresennol ar unrhyw adeg.
 - (1A) Nifer y bobl a ganiateir yw—
 - (a) pan fo pob person sy’n bresennol yn eistedd fel arfer yn ystod y digwyddiad, 10000;
 - (b) fel arall, 4000.
 - (1B) At ddibenion y paragraff hwn, nid yw person sy’n gweithio, neu sy’n darparu gwasanaethau gwirfoddol, mewn perthynas â chynnal digwyddiad i’w drin fel pe bai’n bresennol yn y digwyddiad.”;
 - (ii) yn lle is-baragraff (2) rhodder—
- (ii) omit “or an outdoor gathering of no more than 100 people at such premises,”;
- (iii) omit “(in either case)”;
- (bb) in paragraph (i)—
 - (i) in the words before sub-paragraph (i), for “wholly or mainly” substitute “to any extent”;
 - (ii) in sub-paragraph (i), for “50” substitute “30”;
- (cc) for paragraph (j) substitute—
 - “(j) participating in, attending or facilitating a regulated gathering or event that takes place outdoors;”;
 - (dd) in paragraph (k), for “an regulated gathering” substitute “a regulated gathering, in premises other than holiday or travel accommodation,”;
- (c) in paragraph 4—
 - (i) for sub-paragraph (1) substitute—
 - “(1) No person may, without a reasonable excuse, be involved in organising an event unless—
 - (a) the event is regulated (see regulation 57(7)),
 - (b) the event is held outdoors, and
 - (c) no more than the permitted number of people attend at any time.
 - (1A) The permitted number of people is—
 - (a) where every person attending is normally seated during the event, 10000;
 - (b) otherwise, 4000.
 - (1B) For the purposes of this paragraph, a person working, or providing voluntary services, in relation to the holding of an event is not to be treated as attending the event.”;
 - (ii) for sub-paragraph (2) substitute—

“(2) Nid yw is-baragraff (1) yn gymwys i berson sy’n ymwneud â threfnu—

- (a) digwyddiad a gynhelir mewn annedd breifat lle nad yw pobl yn cymryd rhan mewn cynulliad yn groes i baragraff 1;
- (b) digwyddiad a awdurdodwyd gan Weinidogion Cymru o dan baragraff 5;
- (c) gweinyddu priodas, ffurfiad partneriaeth sifil neu seremoni briodas arall;
- (d) angladd;
- (e) cynulliad o dan do o ddim mwy na 30 o bobl mewn mangre reoleiddiedig heb gyfrif personau o dan 11 oed na phersonau sy’n gweithio yn y fangre, i—
 - (i) dathlu gweinyddiad priodas, ffurfiad partneriaeth sifil neu seremoni briodas arall a ddigwyddodd ar neu ar ôl 26 Mawrth 2020;
 - (ii) dathlu bywyd person ymadawedig y cynhelir ei angladd ar neu ar ôl 26 Mawrth 2020;
- (f) cynulliad rheoleiddiedig sy’n digwydd i unrhyw raddau o dan do ac—
 - (i) lle nad yw mwy na 30 o bobl yn bresennol, heb gyfrif personau o dan 11 oed na phersonau sy’n gweithio yn y cynulliad neu sy’n darparu gwasanaethau gwirfoddol ynddo, a
 - (ii) lle nad oes unrhyw alcohol yn cael ei yfed;
- (g) cynulliad rheoleiddiedig, mewn mangre ac eithrio llety gwyliau neu llety teithio, er datblygiad neu lesiant plant (gan gynnwys chwaraeon, cerddoriaeth a gweithgareddau hamdden eraill megis y rheini a ddarperir ar gyfer plant y tu allan i oriau’r ysgol ac yn ystod gwyliau’r ysgol).”;
- (iii) yn is-baragraff (3)(b), yn lle “50 neu 100 o bobl yn bresennol, yn ôl y digwydd” rhodder “nifer y bobl a ganiateir yn bresennol yn y digwyddiad ar unrhyw adeg”;
- (d) ym mharagraff 7(1), yn lle “neu 10” rhodder “, 10 neu 11”;
- (e) ar ôl paragraff 10 mewnosoder—

“11. Rinciau sglefrio iâ.”

“(2) Sub-paragraph (1) does not apply to a person involved in organising—

- (a) an event held at a private dwelling at which people do not participate in a gathering in contravention of paragraph 1;
- (b) an event authorised by the Welsh Ministers under paragraph 5;
- (c) a solemnisation of a marriage, formation of a civil partnership or an alternative wedding ceremony;
- (d) a funeral;
- (e) an indoor gathering of no more than 30 people at regulated premises not counting persons under the age of 11 or persons working at the premises, to—
 - (i) celebrate a solemnisation of a marriage, formation of a civil partnership or alternative wedding ceremony that took place on or after 26 March 2020;
 - (ii) celebrate the life of a deceased person whose funeral is held on or after 26 March 2020;
- (f) a regulated gathering that takes place to any extent indoors and at which—
 - (i) no more than 30 people are in attendance, not counting persons under the age of 11 or persons working, or providing voluntary services, at the gathering, and
 - (ii) no alcohol is consumed;
- (g) a regulated gathering, in premises other than holiday or travel accommodation, for the development or well-being of children (including sports, music and other recreational activities such as those provided for children outside of school hours and during school holidays).”;
- (iii) in sub-paragraph (3)(b), for “50 or 100 people are in attendance, as the case may be” substitute “the permitted number of people are present at the event at any time”;
- (d) in paragraph 7(1), for “or 10” substitute “, 10 or 11”;
- (e) after paragraph 10 insert—

“11. Ice skating rinks.”

(7) Yn Atodlen 2—

(a) ym mharagraff 2(6)—

- (i) ym mharagraff (i), yn y geiriau o flaen is-baragraff (i), yn lle “yn gyfan gwbl neu’n bennaf” rhodder “i unrhyw raddau”;
- (ii) ym mharagraff (j), yn y geiriau o flaen is-baragraff (i), hepgorer “yn gyfan gwbl neu’n bennaf”;

(b) ym mharagraff 4—

(i) yn lle is-baragraff (1) rhodder—

“(1) Ni chaiff unrhyw berson, heb esgus rhesymol, ymwneud â threfnu digwyddiad oni bai—

- (a) bod y digwyddiad yn ddigwyddiad rheoleiddiedig (gweler rheoliad 57(7)),
- (b) bod y digwyddiad yn cael ei gynnal yn yr awyr agored, ac
- (c) nad yw mwy na 50 o bobl yn bresennol ar unrhyw adeg.

(1A) At ddibenion y paragraff hwn, nid yw person sy’n gweithio, neu sy’n darparu gwasanaethau gwirfoddol, mewn perthynas â chynnal digwyddiad i’w drin fel pe bai’n bresennol yn y digwyddiad.”;

(ii) yn lle is-baragraff (2) rhodder—

“(2) Nid yw is-baragraff (1) yn gymwys i berson sy’n ymwneud â threfnu—

- (a) digwyddiad a gynhelir mewn annedd breifat lle nad yw pobl yn cymryd rhan mewn cynulliad yn groes i baragraff 1;
- (b) digwyddiad a awdurdodwyd gan Weinidogion Cymru o dan baragraff 5;
- (c) gweinyddu priodas, ffurfiad partneriaeth sifil neu seremoni briodas arall;
- (d) angladd;
- (e) cynulliad o dan do o ddim mwy na 30 o bobl mewn mangre reoleiddiedig, neu gynulliad yn yr awyr agored o ddim mwy na 50 o bobl mewn mangre o’r fath, heb gyfrif (yn y naill achos na’r llall) bersonau o dan 11 oed na phersonau sy’n gweithio yn y fangre, i—
 - (i) dathlu gweinyddiad priodas, ffurfiad partneriaeth sifil neu seremoni briodas arall a ddigwyddodd ar neu ar ôl 26 Mawrth 2020;

(7) In Schedule 2—

(a) in paragraph 2(6)—

- (i) in paragraph (i), in the words before sub-paragraph (i), for “wholly or mainly” substitute “to any extent”;
- (ii) in paragraph (j), in the words before sub-paragraph (i), omit “wholly or mainly”;

(b) in paragraph 4—

(i) for sub-paragraph (1) substitute—

“(1) No person may, without a reasonable excuse, be involved in organising an event unless—

- (a) the event is regulated (see regulation 57(7)),
- (b) the event is held outdoors, and
- (c) no more than 50 people attend at any time.

(1A) For the purposes of this paragraph, a person working, or providing voluntary services, in relation to the holding of an event is not to be treated as attending the event.”;

(ii) for sub-paragraph (2) substitute—

“(2) Sub-paragraph (1) does not apply to a person involved in organising—

- (a) an event held at a private dwelling at which people do not participate in a gathering in contravention of paragraph 1;
- (b) an event authorised by the Welsh Ministers under paragraph 5;
- (c) a solemnisation of a marriage, formation of a civil partnership or an alternative wedding ceremony;
- (d) a funeral;
- (e) an indoor gathering of no more than 30 people at regulated premises, or an outdoor gathering of no more than 50 people at such premises, not counting (in either case) persons under the age of 11 or persons working at the premises, to—
 - (i) celebrate a solemnisation of a marriage, formation of a civil partnership or alternative wedding ceremony that took place on or after 26 March 2020;

- | | |
|---|---|
| <ul style="list-style-type: none"> (ii) dathlu bywyd person ymadawedig y cynhelir ei angladd ar neu ar ôl 26 Mawrth 2020; | <ul style="list-style-type: none"> (ii) celebrate the life of a deceased person whose funeral is held on or after 26 March 2020; |
| <ul style="list-style-type: none"> (f) cynulliad rheoleiddiedig sy'n digwydd i unrhyw raddau o dan do ac— <ul style="list-style-type: none"> (i) lle nad yw mwy na 30 o bobl yn bresennol, heb gyfrif personau o dan 11 oed na phersonau sy'n gweithio yn y cynulliad neu sy'n darparu gwasanaethau gwirfoddol ynddo, a (ii) lle nad oes unrhyw alcohol yn cael ei yfed; | <ul style="list-style-type: none"> (f) a regulated gathering that takes place to any extent indoors and at which— <ul style="list-style-type: none"> (i) no more than 30 people are in attendance, not counting persons under the age of 11 or persons working, or providing voluntary services, at the gathering, and (ii) no alcohol is consumed; |
| <ul style="list-style-type: none"> (g) cynulliad rheoleiddiedig sy'n digwydd yn yr awyr agored ac— <ul style="list-style-type: none"> (i) lle nad yw mwy na 50 o bobl yn bresennol, heb gyfrif personau o dan 11 oed na phersonau sy'n gweithio yn y cynulliad neu sy'n darparu gwasanaethau gwirfoddol ynddo, oni bai bod y cynulliad wedi ei drefnu at ddibenion protestio, neu bicedu a gynhelir yn unol â Deddf yr Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992(1), a (ii) lle nad oes unrhyw alcohol yn cael ei yfed; | <ul style="list-style-type: none"> (g) a regulated gathering that takes place outdoors and at which— <ul style="list-style-type: none"> (i) no more than 50 people are in attendance, not counting persons under the age of 11 or persons working, or providing voluntary services, at the gathering, unless the gathering is organised for the purposes of protest, or picketing carried out in accordance with the Trade Union and Labour Relations (Consolidation) Act 1992(1), and (ii) no alcohol is consumed; |
| <ul style="list-style-type: none"> (h) cynulliad rheoleiddiedig, mewn mangre ac eithrio llety gwyliau neu llety teithio, er datblygiad neu lesiant plant (gan gynnwys chwaraeon, cerddoriaeth a gweithgareddau hamdden eraill megis y rheini a ddarperir ar gyfer plant y tu allan i oriau'r ysgol ac yn ystod gwyliau'r ysgol).”; | <ul style="list-style-type: none"> (h) a regulated gathering, in premises other than holiday or travel accommodation, for the development or well-being of children (including sports, music and other recreational activities such as those provided for children outside of school hours and during school holidays).”; |
| <ul style="list-style-type: none"> (iii) yn is-baragraff (3)(b), yn lle “30 neu 50 o bobl yn bresennol, yn ôl y digwydd” rhodder “50 o bobl yn bresennol yn y digwyddiad ar unrhyw adeg”. | <ul style="list-style-type: none"> (iii) in sub-paragraph (3)(b), for “30 or 50 people are in attendance, as the case may be” substitute “50 people are present at the event at any time”. |
| <p>(8) Yn Atodlen 3—</p> <ul style="list-style-type: none"> (a) ym mharagraff 2(6)— <ul style="list-style-type: none"> (i) ym mharagraff (g), yn y geiriau o flaen is-baragraff (i), yn lle “yn gyfan gwbl neu'n bennaf” rhodder “i unrhyw raddau”; (ii) ym mharagraff (h), yn y geiriau o flaen is-baragraff (i), hepgorer “yn gyfan gwbl neu'n bennaf”; | <p>(8) In Schedule 3—</p> <ul style="list-style-type: none"> (a) in paragraph 2(6)— <ul style="list-style-type: none"> (i) in paragraph (g), in the words before sub-paragraph (i), for “wholly or mainly” substitute “to any extent”; (ii) in paragraph (h), in the words before sub-paragraph (i), omit “wholly or mainly”; |

(1) 1992 p. 52.

(1) 1992 c. 52.

(b) ym mharagraff 3(6)—

- (i) ym mharagraff (j), yn y geiriau o flaen is-baragraff (i), yn lle “yn gyfan gwbl neu’n bennaf” rhodder “i unrhyw raddau”;
- (ii) ym mharagraff (k), yn y geiriau o flaen is-baragraff (i), hepgorer “yn gyfan gwbl neu’n bennaf”;

(c) ym mharagraff 5—

(i) yn lle is-baragraff (1) rhodder—

“(1) Ni chaiff unrhyw berson, heb esgus rhesymol, ymwneud â threfnu digwyddiad oni bai—

- (a) bod y digwyddiad yn ddigwyddiad rheoleiddiedig (gweler rheoliad 57(7)),
- (b) bod y digwyddiad yn cael ei gynnal yn yr awyr agored, ac
- (c) nad yw mwy na 30 o bobl yn bresennol ar unrhyw adeg.

(1A) At ddibenion y paragraff hwn, nid yw person sy’n gweithio, neu sy’n darparu gwasanaethau gwirfoddol, mewn perthynas â chynnal digwyddiad i’w drin fel pe bai’n bresennol yn y digwyddiad.”;

(ii) yn lle is-baragraff (2) rhodder—

“(2) Nid yw is-baragraff (1) yn gymwys i berson sy’n ymwneud â threfnu—

- (a) digwyddiad a gynhelir mewn annedd breifat lle nad yw pobl yn cymryd rhan mewn cynulliad yn groes i baragraff 1;
- (b) digwyddiad a awdurdodwyd gan Weinidogion Cymru o dan baragraff 6;
- (c) gweinyddu priodas, ffurfiad partneriaeth sifil neu seremoni briodas arall;
- (d) angladd;
- (e) cynulliad o dan do o ddim mwy na 15 o bobl mewn mangre reoleiddiedig, neu gynulliad yn yr awyr agored o ddim mwy na 30 o bobl mewn mangre o’r fath, heb gyfrif (yn y naill achos na’r llall) bersonau o dan 11 oed na phersonau sy’n gweithio yn y fangre, i—
 - (i) dathlu gweinyddiad priodas, ffurfiad partneriaeth sifil neu seremoni briodas arall a ddigwyddodd ar neu ar ôl 26 Mawrth 2020;
 - (ii) dathlu bywyd person ymadawedig y cynhelir ei angladd ar neu ar ôl 26 Mawrth 2020;

(b) in paragraph 3(6)—

- (i) in paragraph (j), in the words before sub-paragraph (i), for “wholly or mainly” substitute “to any extent”;
- (ii) in paragraph (k), in the words before sub-paragraph (i), omit “wholly or mainly”;

(c) in paragraph 5—

(i) for sub-paragraph (1) substitute—

“(1) No person may, without a reasonable excuse, be involved in organising an event unless—

- (a) the event is regulated (see regulation 57(7)),
- (b) the event is held outdoors, and
- (c) no more than 30 people attend at any time.

(1A) For the purposes of this paragraph, a person working, or providing voluntary services, in relation to the holding of an event is not to be treated as attending the event.”;

(ii) for sub-paragraph (2) substitute—

“(2) Sub-paragraph (1) does not apply to a person involved in organising—

- (a) an event held at a private dwelling at which people do not participate in a gathering in contravention of paragraph 1;
- (b) an event authorised by the Welsh Ministers under paragraph 6;
- (c) a solemnisation of a marriage, formation of a civil partnership or an alternative wedding ceremony;
- (d) a funeral;
- (e) an indoor gathering of no more than 15 people at regulated premises, or an outdoor gathering of no more than 30 people at such premises, not counting (in either case) persons under the age of 11 or persons working at the premises, to—
 - (i) celebrate a solemnisation of a marriage, formation of a civil partnership or alternative wedding ceremony that took place on or after 26 March 2020;
 - (ii) celebrate the life of a deceased person whose funeral is held on or after 26 March 2020;

- (f) cynulliad rheoleiddiedig sy'n digwydd i unrhyw raddau o dan do ac—
- (i) lle nad yw mwy na 15 o bobl yn bresennol, heb gyfrif personau o dan 11 oed na phersonau sy'n gweithio yn y cynulliad neu sy'n darparu gwasanaethau gwirfoddol ynddo, a
 - (ii) lle nad oes unrhyw alcohol yn cael ei yfed;
- (g) cynulliad rheoleiddiedig sy'n digwydd yn yr awyr agored ac—
- (i) lle nad yw mwy na 30 o bobl yn bresennol, heb gyfrif personau o dan 11 oed na phersonau sy'n gweithio yn y cynulliad neu sy'n darparu gwasanaethau gwirfoddol ynddo, oni bai bod y cynulliad wedi ei drefnu at ddibenion protestio, neu bicedu a gynhelir yn unol â Deddf yr Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992, a
 - (ii) lle nad oes unrhyw alcohol yn cael ei yfed;
- (h) cynulliad rheoleiddiedig, mewn mangre ac eithrio llety gwyliau neu lety teithio, er datblygiad neu lesiant plant (gan gynnwys chwaraeon, cerddoriaeth a gweithgareddau hamdden eraill megis y rheini a ddarperir ar gyfer plant y tu allan i oriau'r ysgol ac yn ystod gwyliau'r ysgol).”;
- (iii) yn is-baragraff (3)(b), yn lle “15 neu 30 o bobl yn bresennol, yn ôl y digwydd” rhodder “30 o bobl yn bresennol yn y digwyddiad ar unrhyw adeg”.
- (9) Yn Atodlen 4, paragraff 4—
- (a) yn lle is-baragraff (1) rhodder—

“(1) Ni chaiff unrhyw berson, heb esgus rhesymol, ymwneud â threfnu digwyddiad oni bai—

 - (a) bod y digwyddiad yn ddigwyddiad rheoleiddiedig (gweler rheoliad 57(7)),
 - (b) bod y digwyddiad yn cael ei gynnal yn yr awyr agored, ac
 - (c) nad yw mwy na 30 o bobl yn bresennol ar unrhyw adeg.
- (f) a regulated gathering that takes place to any extent indoors and at which—
- (i) no more than 15 people are in attendance, not counting persons under the age of 11 or persons working, or providing voluntary services, at the gathering, and
 - (ii) no alcohol is consumed;
- (g) a regulated gathering that takes place outdoors and at which—
- (i) no more than 30 people are in attendance, not counting persons under the age of 11 or persons working, or providing voluntary services, at the gathering, unless the gathering is organised for the purposes of protest, or picketing carried out in accordance with the Trade Union and Labour Relations (Consolidation) Act 1992, and
 - (ii) no alcohol is consumed;
- (h) a regulated gathering, in premises other than holiday or travel accommodation, for the development or well-being of children (including sports, music and other recreational activities such as those provided for children outside of school hours and during school holidays).”;
- (iii) in sub-paragraph (3)(b), for “15 or 30 people are in attendance, as the case may be” substitute “30 people are present at the event at any time”.
- (9) In Schedule 4, paragraph 4—
- (a) for sub-paragraph (1) substitute—

“(1) No person may, without a reasonable excuse, be involved in organising an event unless—

 - (a) the event is regulated (see regulation 57(7)),
 - (b) the event is held outdoors, and
 - (c) no more than 30 people attend at any time.

(1A) At ddibenion y paragraff hwn, nid yw person sy'n gweithio, neu sy'n darparu gwasanaethau gwirfoddol, mewn perthynas â chynnal digwyddiad i'w drin fel pe bai'n bresennol yn y digwyddiad.”;

(b) yn lle is-baragraff (2) rhodder—

“(2) Nid yw is-baragraff (1) yn gymwys i berson sy'n ymwneud â threfnu—

(a) digwyddiad a gynhelir mewn annedd breifat lle nad yw pobl yn cymryd rhan mewn cynulliad yn groes i baragraff 2,

(b) digwyddiad chwaraeon elît a awdurdodwyd gan Weinidogion Cymru o dan baragraff 5;

(c) gweinyddu priodas, ffurfiad partneriaeth sifil neu seremoni briodas arall;

(d) angladd.”;

(c) yn is-baragraff (3)(b), yn lle “15 neu 30 o bobl yn bresennol, yn ôl y digwydd” rhodder “30 o bobl yn bresennol ar unrhyw adeg”.

(10) Yn Atodlen 5, paragraff 1, yng Ngholofn 3 o'r tabl, yn lle “2” rhodder “1”.

(1A) For the purposes of this paragraph, a person working, or providing voluntary services, in relation to the holding of an event is not to be treated as attending the event.”;

(b) for sub-paragraph (2) substitute—

“(2) Sub-paragraph (1) does not apply to a person involved in organising—

(a) an event held at a private dwelling at which people do not participate in a gathering in contravention of paragraph 2;

(b) an elite sporting event authorised by the Welsh Ministers under paragraph 5;

(c) a solemnisation of a marriage, formation of a civil partnership or an alternative wedding ceremony;

(d) a funeral.”;

(c) in sub-paragraph (3)(b), for “15 or 30 people are in attendance, as the case may be” substitute “30 people are present at the event at any time”.

(10) In Schedule 5, paragraph 1, in Column 3 of the table, for “2” substitute “1”.

Mark Drakeford

Y Prif Weinidog, un o Weinidogion Cymru
Am 3.46 p.m. ar 4 Mehefin 2021

©©Hawlfraint y Goron 2021

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Jeff James, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

First Minister, one of the Welsh Ministers
At 3.46 p.m. on 4 June 2021

© Crown copyright 2021

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

£6.90

<http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2021/668>

ISBN 978-0-348-11962-6



9 780348 119626